

Chwarae Plant: Theori ac Arfer

Yn ôl Chwarae Cymru (2018), mae chwarae yn golygu fod y plant eu hunain yn cael dewis rhydd o ran pryd, sut a beth i chwarae. Mae chwarae hefyd yn meddwl bydd y plant yn penderfynu ar y rheolau a'r rolau o fewn y chwarae (Chwarae Cymru, 2018). I gymharu â hyn, mae chwarae yn bwerus ac yn dyfnhau dysgu a dealltwriaeth y plant trwy dechrau dysgu o brofiadau uniongyrchol sydd yn seiliedig arb eth mae'r plant yn gwybod ond hefyd beth maent yn gallu gwneud yn barod. (Moyles, 2009:28)

Chwarae symbolaidd

Mae'r math yma o chwarae yn galluogi rheolaeth ac archwilio graddol a cynyddu dealltwriaeth heb risg o fod allan o ddyfnder. Esiampl o hyn yw defnyddio darn o bren i esgus bod yn person neu gwrthrych arall neu defnyddio darn o llinyn fel modrwy. Mae'r math yma o chwarae yn gallu cael ei cymharu gyda chwarae dychmygol, chwarae dramatig neu chwarae a gwisgo lan. Esiamplau o'r math yma o chwarae yn gallu cynnwys blociau lego yn troi mewn i geir neu cadeiriau a blancedi yn troi mewn i babell. (Empowered Parents, dim dyddiad). Gall oedolion cefnogi y math yma o chwarae yn hawdd. Does dim angen prynu adnoddau i ddechrau y chwarae yma achos mae'r math yma o chwarae yn gwneud defnydd o'r gwrthrychau sydd o'ch cwrdd. Mae iaith a niferedd y plant yn cael ei datblygu trwy chwarae symbolaidd oherwydd wrth ysgrifennu llythrennau a rhifau, maent yn cynrychioli symbolau yr ydym yn trio cyfleu. Mae'r plant hefyd yn datblygu ei sgiliau cymdeithasol trwy chwarae symbolaidd fel chwarae hunan- gyfeiriedig. Mae iaith y plant yn cael ei cefnogi trwy chwarae yn y ffordd hyn trwy ymgysylltu gyda pobl arall yn ogystal a gweithredu rhyngweithiadau. (Empowered Parents, dim dyddiad).

Rhaid i oedolion annog plant i fod yn annibynnol, ond hefyd fod yn eiriolwr i chwarae sydd yn meddwl bod angen deal gymaint ag sydd yn bosib am pam a sut mae plant yn chwarae. mae angen i oedolion hefyd dangos yr emosiwn sydd angen i rhyngweithio o fewn profiadau hwylus. Trwy ymddiried a parchu yr plant bydd hyn yn galluogi oedolion i ddeall y pŵer y gall chwarae yn unigol greu.

Mae Piaget yn damcaniaethwr allai bod mewn cysylltiad gyda chwarae symbolaidd. Yn ôl De Witt, (2016:15), gwnaeth Piaget rhannu datblygiad gwybyddol y plant mewn i bedwar cam o ran oedran. Mae plant sydd oed 2-7 yn dysgu trwy chwarae symbolaidd gan ei bod yn y cam rhagweithredol.

I grynhoi, mae plant oed 3-7 angen llefydd i chwarae, pobl i chwarae gyda a defnyddiau ar gyfer chwarae. Mae rol yr oedolyn yn bwysig o ran helpu plant datblygu trwy chwarae. Yn ôl

Rogoff et al, (1998) ar draws y byd mae chwarae fel arfer yn cael ei basio lawr o genedlaethau heb cefnogaeth oedolion. Hynny yw mae brodyr a chwiorydd yn chwarae gyda brodyr neu chwiorydd llai o oed.

Therapi chwarae

Yn ol Research gate, (2015), mae therapi chwarae yn defnydd systematig o fodel damcaniaethol er mwyn dysgu proses rhyngbersonol lle mae therapyddion proffesiynol yn defnyddio'r pŵer o chwarae i helpu plant atal neu i ddatrys anawsterau meddyliol ac i gyflawni ei llawn potensial. Mae therapi chwarae yn hyrwyddo perthynas gweithio rhwng plant a'r therapydd ac yn galluogi amseroedd am gyfathrebiad a ffantasiau ond hefyd gwrthdrawiad ar lefel y plentyn er mwyn iddynt ei cydymddwyn. Mae Counselling directory (dim dyddiad) yn dweud bod therapi chwarae yn fath o therapi sy'n galluogi plant i fynegi ei hun i eraill, ymchwilio ei teimladau a hefyd gwneud synnwyr o'i brofiadau bywyd. Gan bod chwarae yn gweithgaredd naturiol i blant, mae therapi chwarae yn defnyddiol iawn i helpu plant i 'chwarae allan' beth allan nhw ffeindio'n anodd i roi yn geiriau. Mae therapydd chwarae yn gweithio gyda plant o bob oed mewn amgylchedd diogel er mwyn helpu cael allan profiadau anodd ond hefyd i gynyddu hyder a hunan barch. Gan bod chwarae yn rhan bwysig o ddablygiad plentyn, gall therapi chwarae helpu gyda'r datblygiad yma ond mae yn dibynnu ar anghenion pob plentyn.

Chwarae Cyfochrog

Mae'r math yma o chwarae yn meddwl bod plant yn chwarae ar bwys neu yn agos i blentyn/plant arall ond ddim yn chwarae gyda nhw. Yn ôl Healthline (2020), mae gan chwarae cyfochrog llawer o fuddion. Trwy chwarae yn cyfochrog, mae plant yn datblygu ei sgiliau iaith a chyfathrebu gan ei bod yn gwrando i geiriau sy'n dod o blant neu oedolion eraill sydd o'i chwmpas. Trwy chwarae yn cyfochrog, mae sgiliau echddygol bras a manwl yn cael ei datblygu hefyd. Gallai hyn cael ei datblygu trwy yn syml, ail-adrodd gweithgaredd maent wedi gweld rhywun ar ei bwys yn gwneud neu yn arbrofi gyda rhywbeth y maent wedi dysgu wrth chwarae cyfochrog. Trwy chwarae yn cyfochrog mae emosiynau y plant a theimladau y plant yn cael ei mynegi hefyd. Gall y plant mynd o hapus i grac yn hawdd ac mae'r teimladau hyn weithiau yn seiliedig ar ei profiadau mewn bywyd go iawn.

Yn ystod chwarae cyfochrog, dylai yr oedolyn camu nol a galluogi y plant i chwarae yn cyfochrog. Er hynny, dylai arsylwadau cyfoedion i gyfoedion cymryd lle. Trwy'r math yma o chwarae, dylai yr oedolion rhoi rhyddid i'r plant i ryngweithio gyda'r amgylchedd a'i

chyfoedion. Nod y math yma o chwarae yw fod plant yn dysgu trwy arsylwi ar plant arall yn lle oedolion.

Un esiampl o chwarae cyfochrog yw brawd a chwaer yn chwarae gyda'r un set o Lego ond yn adeiladu pethau gwahanol. Esiampl arall yw plant sydd yn rhannu brwshys paent a paent ond yn peintio ar bapur gwahanol. (Parten, 1929)

Chwarae hunan-gyfeiriedig

Pwrpas y math yma o chwarae yw bod y plant yn cael dewis rhydd a mae'r chwarae yn o dan arweiniad plant. Mae'r math yma o chwarae yn digwydd yn naturiol a heb nod penodol. Trwy'r math yma o chwarae, mae'r plant yn dysgu annibyniaeth a teimlad o ryddid. Mae'r plant hefyd yn dysgu sut i wneud penderfyniadau'n barhaol a hefyd sut i reoli ei symudiadau. Mae dull rhyngwladol yn cefnogi y math yma o chwarae sef Reggio Emilia. Yn ôl Reggio Emilia (2015), mae'r dull yma yn digwydd o dan arweiniad chwilfrydedd y plant a hefyd y cysylltiad i'r byd o'i gwmpas. Y cred am hyn yw bod hyn yn galluogi'r plant i ddatblygu ei potensial. Mae'r math yma o chwarae yn cael ei penderfynu gan cwestiynau, y byd maent yn byw ynddi a diddordebau'r plant.

Mae'r defnyddiau sydd ar gael i'r plant yn ychwanegu at chwarae'r plant mewn ffyrdd positif. Mae'r plant yn cael cyfleoedd i ddatblygu annibyniaeth a sut i feddwl yn feirniadol. Er bod plant yn penderfynu ar chwarae yn annibynnol, mae perthnasoedd yn cael ei adeiladu a mae rhyngweithiau cymdeithasol yn cael ei datblygu hefyd. Trwy chwarae yn y ffordd hyn, mae iaith yn cael ei datblygu a mathemateg a gwyddoniaeth yn cael ei archwilio tra bod creadigrwydd a celf yn mynd aw yn llaw. Yn ystod chwarae hunan-gyfeiriedig, mae diwylliannau gwahanol yn cael ei darganfod. (Reggio Emilia, 2015).

Mae'r dull rhyngwladol yma yn cynnwys cynganeddion sydd weithiau yn cael ei sefydlu gan athrawon. Ar ol arsylwi'r plant, mae cynganeddion yn cael i sefydlu er mwyn annog trafodaeth ac archwilio ymhen y plant. Gall y cynganeddion cynnwys rhywbeth sydd yn seiliedig ar thema mae'r plant yn astudio fel y byd naturiol. Gall y cynganeddion cynnwys pethau fel: gwrthrych, problem, natur neu hyd yn oed cwestiwn syml o'r oedolyn. (Reggio Emilia, 2015).

Montessori yw damcaniaethwr sydd yn gallu cael ei cysylltu gyda'r math yma o chwarae. Roedd Montessori wedi gosod y plentyn yng nghanol ei waith. Gwnaeth i weld y plentyn fel unigolyn oedd yn unigryw. Montessori oedd wedi pwysleisio y pwysigrwydd o ryddid cymdeithasol i gymharu a cwricwlwm sydd wedi'i gynllunio i gyrraedd targedau ac anghenion cymdeithasol. (Miller a Pount, 2011).

Mae'n bwysig o fewn chwarae hunan-gyfeiriedig bod yr oedolion yn darparu yr adnoddau i alluogi'r chwarae hunan-gyfeiriedig. Dros cyfnod o amser, bydd yr arsylwi hyn yn rhoi cyfleoedd i ddarparu mwy o adnoddau i'r plant er mwyn datblygu'r chwarae hunan-gyfeiriedig. (Smartkidz, 2019). O fewn chwarae hunan-gyfeiriedig, mae'n bwysig bod yr oedolion yn wybodus ac yn deall sut i ddarparu'r math o chwarae. Y plant sydd yn hyderus yn rhoi'r siawns gorau o'r math o chwarae o fod yn llwyddiannus.

Yn ôl Moyles, (2011) mae chwarae cyfannol yn ethos ac yn broses ysbrydol ac emosiynol. Mae chwarae cyfannol hefyd yn diwylliant o barch, amser, sgwrsio, rhyngweithio a chefnogaeth. Mae chwarae hunan-gyfeiriedig yn cefnogi datblygiad cyfannol yn gorfforol trwy cefnogi sgiliau echddygol manwl a cydsymud llaw-llygad. Gall hyn cael ei weld mewn ymarfer trwy gweld plant yn chwarae gyda blociau neu fordiau pegs. Mae sgiliau echddygol bras yn cael ei datblygu hefyd trwy chwarae yn hunan-gyfeiriedig oherwydd trwy symudiadau a cydbwyso. Mae'r datblygiad deallusol yn cael ei cefnogi gan bod plant yn cyffwrdd ac yn archwilio y byd o gwmpas. Mae'r plant yn gallu dysgu am maint, lle, lliw a gwead. Gallwnt weld hyn yn ymarfer trwy plant yn peintio neu trwy chwarae yn y dwr. Bydd y plant hefyd yn dod ar draws gwahaniaethau a sut mae pethau yn newid os mae'r defnyddiau yn newid. Enghraifft o hyn yw os mae dwr yn cael ei arllwys ar tywod. Mae datblygiad emosiynol y plant yn cael ei datblygu gan bod chwarae yn galluogi plant i drïo bethau newydd heb ofn neu heb ofni bod yn anghywir, felly maent yn datblygu hyder a hunan-barch. Gall y plant hefyd teimlo'n dda am ei hun. Mae chwarae rol yn rhoi cyfle i blant i archwilio ei emosiynau ac i actio allan sut y maent yn teimlo. Mae datblygiad cymdeithasol y plant hefyd yn cael ei datblygu trwy chwarae hunan-gyfeiriedig. Mae sgiliau fel rhannu a cymryd tro yn cael ei datblygu hefyd. Trwy gweithio gyda'i gilydd mae plant yn gallu gweithio allan beth sydd angen ei wneud er mwyn cwblhau'r tasg. Mae datblygiad diwylliannol y plant yn gallu cael ei cefnogi trwy chwarae gan ei bod yn dysgu am y byd sydd o'i chwmpas. Gallent gwisgo lan yn yr ardal chwarae rol ac yn gallu chwarae offerynnau cerdd o wledydd gwahanol er mwyn ei dysgu am ddiwylliannau gwahanol. Trwy gwneud hyn bydd ymwybyddiaeth yn cael ei codi o sut mae plant eraill yn chwarae sydd yn codi ymwybyddiaeth o blant o'r diwylliannau gwahanol.

Mae ymddygiad y plant yn gallu cael ei cefnogi trwy chwarae'n hunan-gyfeiriedig. Mae angen i blant cael tasgiau neu gweithgareddau sydd yn rhoi sialens iddynt ond mae rhaid sicrhau ei bod ddim yn rhy galed neu bydd y plentyn yn mynd yn grac. Os mae'r plentyn yn mwynhau, y byddent yn dysgu ond os nad yw'r plentyn yn mwynhau na byddent yn dysgu. Mae ymddygiad gwael yn gallu digwydd trwy diflastod neu rhwystredigaeth. (City and guilds, 2019).

Dull arsylwi

Yn ol complex needs, (dim dyddiad) mae cofnod rhededog yn math o ddull arsylwi. Mae dulliau arsylwi yn cael ei defnyddio gan athrawon sydd yn helpu creu llun o'r fath o berson y mae'r plentyn. Mae dulliau arsylwi gwahanol a mae rhai yn fwy haws i'w ddefnyddio o fewn amgylcheddau gwahanol. Mae rhaid i'r dulliau arsylwi cael ei ddeall gan y tim cyfan ac yn galluogi'r staff i ddysgu am y plentyn. Mae'r math yma o ddull arsylwi yn confodi ymddygiad plenty dros cyfnod o amser. Mae'r person sydd yn arswyli yn ysgrifennu yn union beth sydd yn cael ei dweud a beth sydd yn cael ei wneud am gyfnod o amser. Y nod o'r math yma o ddull arsylwi yw ddim i ddehongli ar beth sydd yn cael ei dweud/gwneud ond y nod yw i alluogi ymddygiad naturiol. Pwrpas y math yma o ddull arsylwi yw i roi lot o wybodaeth er ei bod dros cyfnod bach o amser. Dylsai'r person sydd yn arsylwi ysgrifennu crynodeb o'r ymddygiad fel casgliad. Mae gan y math yma o ddull arsylwi llawer o fuddion gan ei bod yn darparu tystiolaeth disgrifiadol a gwrthrychol. Budd arall o'r math yma o ddull arsylwi yw ei bod yn galluogi'r arsylwyr i gadw llygaid ar ddatblygiad y plentyn/plant dros cyfnod o amser. (Aussie Childcare network, 2021). Yn ol Complex needs (dim dyddiad), mae cofnod rhededog yn gallu cefnogi'r cynllunio o weithgareddau i'r plant. Mae'r dull arsylwi yma yn meddwl bod rhaid i'r oedolyn cymryd amser allan i gwblhau'r arsylwad pan mae'r oedolyn yn rhydd i'w wneud. Er mwyn gwneud cofnod rhededog dda, mae angen dealltwriaeth da o sut mae'r plant yn dysgu, dealltwriaeth y plentyn sydd yn cael ei arsylwi, sensitifrwydd a arbenigedd o ran y person sydd yn arsylwi.

Er mwyn ysgrifennu cofnod rhededog rhaid ffocysu ar ymddygiad y plentyn a dim byd arall. Mae angen recordio'r ffeithiau am beth mae'r plentyn yn dweud neu yn gwneud. Mae angen ysgrifennu yn yr amser presennol, gall y casgliad bod yn yr amser gorffennol. Mae hefyd yn bwysig i recordio'r ymddygiad mewn trefn a gadael lle am nodiadau rhag ofn bod angen ychwanegu rhywbeth. Mae'n bwysig bod cofnod rhedegog yn aros yn gyfrinachol a maent fel arfer yn cael ei cadw mewn ffolder ar gyfer y plentyn. Dylsai cofnod rhedegog cael ei gwneud pob 2- 4 wythnos gan bod hyn yn gallu rheoli cynnydd y plentyn ond hefyd yn gwneud lle os oes angen ymyrraeth. (Online schools report, dim dyddiad).

Pam defnyddio chwarae wrth arsylwi plant?

Yn ôl Jane Drake, (2006) mae arsylwi yn rhan bwysig o ddyysu er mwyn ddeall plant ifanc fel dysgwyr. Mae arsylwi yn rhan o'r cylch cynllunio. Mae arsylwi yn cael ei adnabod fel rhan o rol yr oedolyn. Mae arsylwi yn rhan o wyllo ymddygiad plant a gwrando arnynt yn trafod.

Weithiau er mwyn cael y gorau allan o'r arsylwad, rhaid i'r oedolion ymuno mewn ar y chwarae neu'r trafodaeth. Mae hefyd yn cymryd oedolyn sensitive a barchus i gefnogi plant yn chwarae a hefyd agwedd sy'n gwahodd plant i chwarae. Mae Alexandra Louis, (2018) yn dweud bod arsylwi yn bwysig os mae hi'n cael ei gwneud trwy chwarae. Mae chwarae yn adeiladau creadigrwydd a dychymyg. Mae chwarae yn rhoi cyfle i blant mynegi ei hun yn dieiriau a gyda geiriau. Mae'n bwysig i'r oedolyn deall beth mae'r plentyn gyda diddordeb mewn a beth yw anghenion y plant. Dylsai'r arsylwi digwydd ar sail hyn. Mae creu cwricwlwm sydd yn seiliedig ar diddordebau'r plant yn rhoi budd i ddatblygiad a dysgu y plant. Mae plant yn fwy tebygol o gymryd rhan mewn pethau sydd yn rhoi diddordeb iddyn nhw. Yn ôl parenting success network (2020), mae arsylwi trwy chwarae yn bwysig ar gyfer datblygiad y plentyn. Mae arsywli plant trwy chwarae yn helpu oedolion i ddeall y plentyn yn well fel athrawon neu rhieni/gwarchodwyr. Mae arsylwi plant yn rhoi casgliad o wybodaeth pwysig i'r person sydd yn arsylwi. Mae'r gwybodaeth yn defnyddiol am y dysgwyr ei hunan mewn perthynas a nhw fel unigolyn. Mae'r arsylwadau hefyd yn ffurfio rhan o'r asesiad EYFS a'r cylch cynllunio. (Early years careers, 2016). Mae yna llwyth o resymau pam y dylsen defnyddio chwarae i arsylwi ar blant. Rhai o'r rhesymau yw mae hi'n galluogi ni i ffeindio mwy allan am y plentyn, darganfod sut mae sgiliau'r plant yn datblygu a hefyd arsylwi ar datblygiad iaith y plant. (Early years careers, 2016).

Reference list

Aubrey. (2019). *Understanding and using educational theories* (Riley, Ed.; 2nd edition.). SAGE Publications.

Bruce, T. (2011) *Learning through play: for babies toddlers and young children*. 2nd ed. London:, Hodder Education.

City and Guilds (2019) *health, well-being, learning and development* Available at: http://resource.download.wjec.co.uk.s3.amazonaws.com/vtc/2018-19/hsc18-19_3-2/_multi-lang/unit03/02-the-importance-of-play-and-holistic-development.html (Accessed 18th February 2022)

Complex needs (no date) *Observational methods.pdf* Available at: [observational_methods.pdf \(complexneeds.org.uk\)](http://complexneeds.org.uk/observational_methods.pdf) (Accessed: 16th February 2022)

Early years careers (2016) *observing children's play* Available at:

<https://www.earlyyears-careers.com/eyc/latest-news/observing-childrens-play/> (Accessed: 19th February 2022)

Empowered parents (dim dyddiad) Symbolic Play Available at: <https://empoweredparents.co/symbolic-play/#:~:text=By%20definition%2C%20symbolic%20play%20involves%20%E2%80%9Cpretend%20playing%E2%80%9D%20with,the%20phone%20used%20to%20call%20the%20fire%20brigade>. (Accessed: 31st January 2022)

Gaikwad, A., Lalitha, K. And Seshadri, S. (2015) 'Play Therapy: An approach to manage childhood problems', *International Journal of Pediatric Nursing*, 1 (1), pp. 22-28. Available at: https://www.researchgate.net/profile/Achla-Gaikwad/publication/278670903_effectiveness_of_play_therapy_on_family_stress_coping_and_selected_variables_of_children_with

[DBD/links/56274475808aeabddac944475/Effectiveness-of-play-therapy-on-family-stress-coping-and-selected-variables-of-children-with DBD.pdf](DBD/links/56274475808aeabddac944475/Effectiveness-of-play-therapy-on-family-stress-coping-and-selected-variables-of-children-with-DBD.pdf) (Accessed: 15th February 2022)

Helpful Professor (2021) *Parten's 6 stages of play in childhood explained* Available at: [Parten's 6 Stages of Play in Childhood, Explained! \(2022\) \(helpfulprofessor.com\)](Parten's 6 Stages of Play in Childhood, Explained! (2022) (helpfulprofessor.com)) (Accessed: 7th February 2022)

Hi Mama (2018) *Why observe children at play?* Available at: <https://www.himama.com/blog/why-observe-children-at-play/> (Accessed: 18th February 2022)

Moyles, J (2013) *Play and Early Years: Birth to seven years* Available at: <http://www.playwales.org.uk/login/uploaded/documents/INFORMATION%20SHEETS/play%20and%20early%20years.pdf>

Nursery World (2006) *Observing children* Available at: <https://www.nurseryworld.co.uk/news/article/observing-children> (Accessed: 18th February 2022)

Online schools report (no date) *what is a running record in early childhood education?* Available at: <https://www.onlineschoolsreport.com/what-is-a-running-record-in-early-childhood-education/> (Accessed: 18th February 2022)

Parenting success network (2020) *Why observe children at play?* Available at: [Why Observe Children at Play? \(parentingsuccessnetwork.org\)](Why Observe Children at Play? (parentingsuccessnetwork.org)) (Accessed: 19th February 2022)

Reggio Emilia (2015) *Child Lead Play and Exploration* Available at: [Child Lead Play and Exploration - Reggio Emilia \(weebly.com\)](Child Lead Play and Exploration - Reggio Emilia (weebly.com)) (Accessed: 31st January 2022)

Smartkidz (2019) *how does a playworker advocate for play?* Available at: [How Does a Playworker Advocate for Play? - Smartkidz, Girton, Cambridge \(smartkidzplayandlearn.co.uk\)](https://www.smartkidzplayandlearn.co.uk/how-does-a-playworker-advocate-for-play/)
(Accessed: 7th February 2022)